

# Tafod Elái

NADOLIG 1990
RHIF 53
Pris 25c

## BLWYDDYN O RYDDID



**MANDELA**

Paham y'th gelwir di yn arwr du
Pan llwyd yw'th wallt a'th wedd ers llawer dydd?
Mae cysgod carchar yn dy lygaid cu
A rhychau dyfnion ar dy ael a'th rudd.
Ac eto, carismatig wyt o hyd
Yn ennill parch trigolion o bob lliw.
Ble bynnag mae annhegwch yn y byd,
Tydi sy'n taenu eli ar y briw.
Yn erbyn hiliaeth, brwydro wnei'n ddi-baid
Gan geisio trechu holl gamwri'th wlad.
Wrth weld dy ffydd, dy ddilyn di sy'n rhaid
A chefnu ar ein rhagfarn a'n sarhad.
'R hen wr! Paham y'th taflwyd di mewn cell
Am helpu'th dras i geisio bywyd gwell?

Huw Roderick

## SIÔN CORN - AR Y FFORDD




Ydi, mae Siôn Corn ar ei ffordd i Daf Elái a chawn gyfle i ddathlu gwyrth y Nadolig unwaith eto.

Roedd trefnydd Cystadleuaeth Iolo Morgannwg i feirdd ein Ysgolion Cyfun yn meddwl fod y Nadolig wedi dod yn gynnar pan gyrhaeddodd sachau o gynnyrch o ysgolion y fro. Diolch i'r beirdd ifanc, eu hathrawon ac i Rhys Dafis am gloriannu.

Er fod ambell gwmni selog wedi methu dod i'r Ŵyl ddrama eleni cafwyd dwy noson lwyddiannus. Diolch i bawb a fu'n rhan o'r ŵyl ac yn arbennig i Colin Williams am roi trefn ar y cyfan.

# Nadolig Llawen
# a Blwyddyn Newydd Dda
# i'n Darllenwyr
# Oddiwrth

Wynford Ellis Owen
Gwendoline Jones
Collin Williams
Silyn Roberts
Elgan Lloyd
Rhys Dafis
Siân Jones
Anna Jones
Gill Rees
D.J. Davies
Ein Gohebwyr
David Knight
Penri Williams
Ein Dosbarthwyr

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 2il o Chwefror
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
15 Ionawr 1991

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 0222 890040

Cyhoeddir **Tafod Elái** gan
y Bwrdd Golygyddol
gyda chefnogaeth ariannol
Cymdeithas Celfyddydau
De-Ddwyrain Cymru a'r
Swyddfa Gymreig.
Argraffwyd gan
Gwmni Three Arch Press.

## Nadolig

Beth gest ti'n dy hosan neithiwr?
Gest ti lyfr neu record Wham?
Siŵr y cest ti sent a sebon
A chlap o fferis gan dy fam.

Blentyn bach o Ethiopia
Beth gest ti gan Santa Clos?
Gest ti rywbeth i'th gysuro
Wrth dy hunan yn y nos?

"Doedd gen i ddim hosan 'Dolig–
Plentyn troednoeth ydw i.
Does gen i 'r un dilledyn
Dw i ddim yn lwcus fel rych chi

"Welais i 'rioed lyfr na thedi
Na jigso na marblis drud.
Dim ond esgyrn ffrindiau marw
Fel 'na mae y trydydd byd."

Beth gewch chi i ginio heddiw
Twrci Tesco neu gyw iâr?
Mi gewch bwdin 'Dolig debyg
Os bydd gennych le yn sbâr?

Blentyn bach o Ethiopia
Pa fath ginio a gei di?
"O, cha' i ddim gronyn gwenith.
Dw i ddim yn lwcus fel rych chi

"Chefais i ddim swper neithiwr.
Wn i ddim beth ydy pryd.
Crafu yn y ddaear ddiffrwyth
Rydyn ni'n y trydydd byd."

Beth gewch chi i yfed heddiw?
Lemonêd neu ddracht o win?
Fe gewch dropyn bach o sherry
I yfed iechyd da i'r Cwin?

Blentyn bach o Ethiopia
P'r un ohonyn nhw gei di?
"O cha' i ddim un difeyn
Dw i ddim yn lwcus fel rych chi."

"Mae hi'n sych a llychlyd yma,
Budr ydy'r dŵr i gyd
Does 'na'r un difeyn claear
Yma yn y trydydd byd."

Sut y dathlwch chi'r Nadolig,
Arweinyddion byd i gyd!
Gorbachev a Bush a Major,
Cofiwch am y trydydd byd.

Bore fory wedi'r gwledda
Peidiwch ag anghofio'r gri–
Cri o help gan blant newynog
Sydd ddim yn lwcus fel ry'ch chi.

Trown y gynnau'n wenith melyn.
Trown y bwled du yn ŷd.
Trown y gwaed yn ddŵr i'w yfed
I helpu plant y trydydd byd.

Blentyn bach o Ethiopia
Clyw ein gweddi drosot ti
O, mae'n ddrwg iawn gennym
Nad wyt yn lwcus fel ry'n ni.

## O FAESYBRYN I INDIAN HEAD



Pe byddech wel galw heibio i ysgol Maesybryn, Llanilltud Faerdref, y llynedd, efallai y byddech wedi sylwi ar acen ddiarth un o'r athrawon. Bryd hynny, fe fu Ysgol Maesybryn yn rhan o 'gynllun cyfnewid athrawon y Gymanwlad'. Yr athrawes a fu yma oedd Carol Belanger, o bentref bychan Indian Head, Saskatchewan, Canada. Fe fum i'n ffodus i gyfnewid swydd â hi am flwyddyn gyfan. A dyma chi flwyddyn! Profiad arbennig o'r dechrau hyd y diwedd. Lot o hwyl ac astudiaethau, a chyfle gwerthfawr i brofi ffordd hollol wahanol o fyw.

Mae'r cynllun a grybwyliais yn un sydd wedi bod mewn bodolaeth ers 1901. Erbyn hyn mae 16000 o athrawon wedi cael profiad o ddysgu mewn gwlad wahanol o dan nawdd y cynghrair sy'n trefnu'r fenter.

A dyma fi, ar ôl misoedd o baratoi ac edrych ymlaen yn awyddus, yn glanio ym maes awyr Regina, prifddinas Saskatchewan, mis awst y llynnedd. Gyrru wedyn am ryw awr ar hyd heol hollol wastad a syth fel rhuban. Cyrraedd Indian Head, cymuned ffermio 1,800 o boblogaeth - a chael croeso brwd iawn yno. Yr argraffiadau cyntaf? Tywydd crasboeth mis Awst, machlud haul ysblennydd, milltiroedd ar ôl milltiroedd o gaeau ŷd euraidd, tai enfawr gwasgaredig, bywyd hamddenol, pobl gyfeillgar a charedig, 'Muffins' i frecwast, stecen i swper. Ac yn ben ar y cyfan, straeon erchyll am aeafau enbyd o eira a iâ, a rhybudduon lu sut i ymdopi ... ond rhagor am hynna y tro nesaf.

Elisabeth Davies

## PORTREAD Y MIS

### Ian Mitchell

Dechreuodd Ian ddysgu Cymraeg pan aeth i ysgol Gyfun Coedylan yn y flwyddyn 1973. Dysgodd Gymraeg gydag Eiry Rochford yn gyntaf ac wedyn gyda Nia Williams a Peggy Jones.

Yn y flwyddyn 1974 aeth am wythnos i'r cwrs iaith yn Llangrannog a bu hon yn ysbrydoliaeth iddo. Ar ôl dod adre fe ddechreuodd ymddiddan yn y Gymraeg. Taniwyd ei ddychymyg gan y byd 'arall' y gafodd gipolwg ohono yn Llangrannog.

Dechreuodd gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn y cystadleuthau adrodd, cyd-adrodd, canu unigol a hefyd mewn cystadleuthau offerynnol. Cymrodd ran yng nghystadleuthau y Cwis Llyfrau sawl gwaith a chyrraedd y rown derfynol ar un achlysur.

Treuliodd wythnos yng Nglan Llyn yn Haf 1976 ac yn awr doedd dim troi'n ôl. Roedd am fod yn athro Cymraeg.

Roedd wedi cael cymaint o hwyl, mwynhad ac adloniant wrth ddilyn y 'bywyd Cymreig' fel y penderfynodd ddilyn cwrs Lefel A yn y Gymraeg. Parhaodd i gystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd ac ymunodd â Chôr Godre'r Garth, lle y cafodd ei flas cyntaf o gymdeithasu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Aeth ymlaen i astudio'r Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol Abertawe o dan yr Athro Brynley P. Roberts gan lwyddo cael gradd yno gydag anrhydedd yn y Gymraeg. Yn y coleg cafodd ragor o 'fywyd Cymreig' tu allan i'r maes academaidd. Parhau i Eisteddfota a chanu'n achlysurol gyda Chôr Godre'r Garth a hefyd dysgu'r Gymraeg i blant yn yr ysgol bob dydd.

Yn ystod y gwyliau ymunodd â chyrsiau iaith yr Urdd fel 'swog' neu swyddog. Yn y flwyddyn 1988 ar ôl dysgu dros dro fel athro Cymraeg mewn sawl ysgol cafodd sywdd brahaol yn Ysgol Gyfun Ioan Fedyddiwr yn Aberdâr.

Pan gwrddais ag Ian yn ddiweddar dyma a ddywedodd wrthyf:

"Er nad ydw i'n siarad Cymraeg yn gyson gan fod y mwyafrif o'm ffrindiau a'm rhieni yn ddi-Gymraeg rydw i'n ceisio siarad yr iaith mor aml ag sy'n bosibl, mae'r iaith wedi rhoi dimensiwn arall i fy mywyd."



## YR ALMAEN YN UNO

*Gan ein Gohebydd Arbennig*

Dyma brofiad anhygoel oedd bod yn bresennol i weld yr Almaen yn uno unwaith eto. Dyma'r diwrnod pwysicaf yn hanes yr Almaen ers yr Ail Ryfel Byd, ac mi wnaeth yr Almaenwyr yn fawr ohono. Roedd dathlu dros yr holl wlad - miliwn o bobl yn Berlin - dathlu yn Bonn a'r trefi mawr i gyd.

Ar noswaith yr ail o Hydref roeddwn i yn nhref Bad Neuenahr - Ahrweiler, i'r de o Bonn, ac roedd yr awyrgylch yno yn wahanol i unrhyw beth a brofais o'r blaen. Roedd yr Almaenwyr ar ben eu digon. Doedden nhw ddim yn meddwl am y problemau a allai godi - roedd pobl Dwyrain yr Almaen yn rhydd unwaith eto - dyna oedd yn bwysig. Ar sgwâr y dref cafwyd trafodaeth gan Almaenwyr o'r Dwyrain a'r Gorllewin ac roedden nhw'n unfryd mai rhywbeth da oedd ail sefydlu'r Almaen yn un wlad, ac uno ei phobl. Am hanner nos llanwyd yr awyr â thân gwyllt o bob lliw a llun, a'r Almaenwyr yn canu nerth eu pennau. "Deutschland, Deutschland uber alles!"

Ond erbyn hyn mae'r dathlu wedi dod i ben, ac mae'r realiti o uno'r Almaen yn dechrau dangos. Pwnc llosg ar y funud yw beth sy'n digwydd i Bonn a Berlin - pa un yw'r Brif Ddinas? Ond mae'n ymddangos i mi nad yw'r Almaenwr cyffredin yn poeni rhyw lawer am hyn. Mae'r Almaen unwaith eto yn un, ac mae ef yn fodlon ei fyd.

Lyn Treharne - Hydref 1990.

# CYSTADLEUAETH IOLO MORGANNWG

Rhagorol! Dyna'r unig ansoddai i ddisgrifio'r ymateb i'r gystadleuaeth, o ran nifer y cystadleuwyr a'r safon. Diolch i'r 184 ohonoch, ac i'ch athrawon am bob anogaeth. Gobeithio y gwnewch chi gystadlu yn adran farddoniaeth Eisteddfod yr Urdd, Taf Elái - bob un ohonoch.

Rwan fe hoffwn gyhoeddi pob ymgais a chynnwys beirniadaeth ond mae hynny'n amhosib yn ôl Mr Golygydd. Ond fe gefais ganiatad i gynnwys y goreuon ym mhob cystadleuaeth. Felly dyma nhw.

CERDD I UNRHYW ANIFAIL
(Blwyddyn 1)
1af Emlyn Jones, Llanhari
2il Catrin Thomas, Llanhari
3ydd Sioned Jones, Llanhari
Dosbarth Cyntaf: Kelly Evans (Rhydfelen), Awen Penri, Lisa Tallis, Elin Phillips, Bethan Arwel (Llanhari).

Y DISGO
(Blwyddyn 2 a 3)
1af Bethan Ellis Owen, Llanhari
2il Gethin Mills, Cwm Rhymni
3ydd Lesley Bowen, Rhydfelen
3ydd Rwth Ells Owen Llanhari
Dosbarth Cyntaf: Manon Phillips, Lisa Snowball (Llanhari), Deiniol Harries (Glantaf), Rhodri Jones (Cwm Rhymni), Davinia Entwistle, Kathryn Germain (Rhydfelen).

MANDELA
(Blwyddyn 4 a 5)
1af Huw Roderick, Llanhari
2il Rhian Huws, Llanhari
3ydd Beverley Davies, Rhydfelen
Dosbarth Cyntaf: Anwen Guile, Angharad Rees (Llanhari), Lynne Thomas a Holly Price (Rhydfelen).

DWYLO
(Blwyddyn 6)
1af Matthew Hedges, Rhydfelen
2il Mared Non Mair Whelan, Glantaf
3ydd Daniel Evans, Rhydfelen.
Dosbarth Cyntaf: Iona Rees (Glantaf), Becky Mann, Emma Evans (Rhydfelen), Gareth Williams (Llanhari).

Y LLWYNOG

Fin nos pan mae'r haul yn
Machlud ar y gorwel.
Fe'i gwelir yn rhedeg yng nghysgod y clawdd
Ei gôt goch meifedaidd
a'i gwt hir fel fflam.
Dyma fe'n aros ac yn syllu arnaf
Ei drwyn pigog hir yn gwynto'r awyr.
Ei ddwy lygad ddu yn fflachio fel
dwy seren a'i ddwy glust yn saethu
yn syth i fyny, yn gwrando ar
dawelwch y nos.
Yn sydyn i ffwrdd a fe fel mellten
drwy'r clawdd ac o'r golwg i'r gwyll.

Emlyn Jones

DWYLO

Cydio a chlymu'n gwlwm cariad,
Law yn llaw,
gan ddal yn dynn.

Palfau yn cwrdd, a thrwyddynt
Lif gwaed angerddol, yn argyhoeddi
uniad dwy wythien,
dwy law yn gwlwm
dau fod yn un.
Sumbol o gariad,
cariad a fynnai trwy ddal yn dynn.

Dal yn dynn, a thrwy hynny sicrwydd,
a chynhaliaeth.
A thrwy hynny
cadw cariad gaeth.

Ac un llaw gaeth,
yn symud yn annifyr o fewn cledr llaith y llall.
Symudiad annisgwyl, anweladwy,
ond un a deimlwyd
i'r byw.

Symudiad mwy, sy'n chwyddo,
Fel na all ddwy-law,
na holl gryfder corff ei rhwystro rhag tynnu 'nôl,
gan wywo'n ddwrn,
ac felly hithau'n rhydd.

Ond y llall, yn wag -
y llall, yn agored -

Mathew Hedges



Mathew Hedges



Bethan Ellis Owen



Emlyn Jones

Y DISGO

Goleuadau'n fflachio
A minnau yn gweddio
Y cawn i ddal ei ddwylo
Yn y disgo

Mae pawb yn hoffi'r bachgen
Sy'n gwisgo'r siwt fach felen,
Mae'n dipyn bach o seren
Yn y disgo.

Yn araf fe ddaeth ataf
A galw'i hun yn Gwyndaf.
Rwy'n siwr mai hwn yw'r delaf
Yn y disgo.

Gofynnodd i mi ddawnsio
A dyna'n wir o'n 'isho
Y fi a fo yn smŵtsho
Yn y disgo.

Mae'r miwsig nawr yn blerio
A phawb yn curo dwylo
Wrth weld ni'n dau yn bopio
Yn y disgo.

Daeth amser i ffarwelio
A minnau bron a chrio
Sgwn i welai o eto
Yn y Disgo?

Bethan Ellis Owen

## CYSTADLEUAETH IOLO MORGANNWG



Huw Roderick - enillydd Blwyddyn 4 a 5. Gweiir ei soned i Mandela ar dudalen 1.

## NADOLIG YM METHLEHEM

Ganol gaeaf noethlwm ... cerddodd Mair a Joseff o Nasareth i Fethlehem. Eleni bydd criw yn cerdded o Efail Isaf i Fethlehem. Byddant yn pasio Nebo, Horeb, Cesarea a Nasareth - ond Capeli nid pentrefi bydd rhain. Tua pymtheg o aelodau Teidiau Twm, Tabernacl, Efail Isaf fydd yn gwneud y daith - gyda'r arian noddi a rhoddion yn ystod y daith yn mynd at waith Cymorth Cristnogol.

Tybir y bydd y daith yn cymryd tri diwrnod gyda'r grŵp yn cyrraedd Bethlehem, Llangadog ar noswyl y Nadolig. Os hoffech noddi'r daith mewn unrhyw ffordd, gelwch gysylltu ag unrhyw aelod o'r grŵp neu ffoniwch 0443 205944.

## RESLO

Ar nos Fercher, Chwefror 6ed bydd gornest reslo enfawr yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant gyda elw'r noson yn mynd tuag at yr Eisteddfod. Bydd nifer o enwau rhyngwladol yn cymryd rhan (gan gynnwys Giant Haystacks), gyda gornest tag. Pris y tocynnau yw Oedolion £4, Pensiynwyr a phlant £2 oddiwrth Geraint Price 0443 223282.

CYLCH MEITHRIN
TONTEG

Mae angen Athrawes yng Nghylch Meithrin Salem Tonteg
5 bore'r wythnos
9.30 a.m. - 11.30 a.m.
Os oes diddordeb gennych ffoniwch Eleri Roberts
0443 208211.

## WEDI'R EISTEDDFOD

Beth fydd tynged ardal Taf Elái wedi Eisteddfod yr Urdd 1991? Yn sgîl bwrlwm gweithgarwch a llwyddiant Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghwm Gwendraeth yn 1989 sefydlwyd "Menter Cwm Gwendraeth" gyda'r nod o lunio strategaeth a darparu cynllun ar gyfer y Gymraeg yn yr ardal honno. Bellach mae'r Swyddfa Gymreig wedi penderfynu rhoi cefnogaeth ariannol i'r fenter a phenodwyd Mr Cefin Campbell yn Gyfarwyddwr llawn amser i'r fenter.

A oes modd defnyddio brwdfrydedd a chefnogaeth rhelny o'r ardal hon fydd wedi gweithio dros ac wedi ymweld a'r Eisteddfod i hybu a chryfhau Cymreictod yr ardal wedi i'r Eisteddfod ymadael a ni?

Mae Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Taf-Elái felly wedi sefydlu Gweithgor i ystyried y cwestiwn hwn ac i baratoi adroddiad yn cynnwys argymhellion pendant.

Cyfarfu'r Gweithgor am y tro cyntaf ym mis Tachwedd a phenderfynwyd mynd ati fel cam cyntaf i gasglu ystadegau a gwybodaeth am sefyllfa bresennol y Gymraeg yn yr ardal - yn addysgol, yn grefyddol, yn gymdeithasol ac yn alwedigaethol a.y.b.

Mae'r gweithgor hefyd yn mynd ati i lunio holiaduron ar gyfer disgyblion ysgol, dysgwyr ac oedolion er mwyn ceisio darganfod eu defnydd o'r Gymraeg a'r modd y gellid cryfhau Cymreictod yr ardal. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau a syniadau ynghylch y materion uchod bydd y Gweithgor yn falch iawn o'u derbyn.

Aelodau'r Gweithgor yw Wyn Rees (Cadeirydd), Kathryn Evans, Allan James, Dyfrig Morgan, Guto Roberts, Colin Williams ynghyd â chynrychiolwyr athrawon a disgyblion ysgolion cyfun Llanhari a Rhydfelen.

## *CLWB FFRINDIA SOBIN*

Mae 'na nifer fawr wedi bod yn 'sgwennu yn holi am Sobin ag yn arbennig os oedd Clwb o ryw fath yn bodoli. Wel toedd 'na ddim, ac yn amlwg roedd 'na ofyn - felly dyma benderfynu dechrau Clwb arbennig. Dyma fo i chi, dyma ddatgan yn swyddogol fod CLWB FFRINDIA SOBIN wedi dechrau.

Y cwbl sydd raid i chi wneud i ymuno yw anfon £2 tâl aelodaeth i: SIAN ELERI, Canolfan Sain, Llandwrog, Caernarfon Gwynedd LL57 2AP.

## SWYDDOG DATBLYGU

Yn ddiweddar penodwyd Stephen Morgan yn Swyddog Datblygu Cynorthwyol Ieuenctid ac Oedolion ym Morgannwg Ganol. Ar hyn o bryd y mae'n athro Cymraeg yn Ysgol Gyfun Prestatyn yng Nghlwyd. Y mae ganddo brofiad o weithio yng Nghlwb Ieuenctid Mostyn. Bu'n diwtor am nifer o flynyddoedd ar Gwrs Carlam Aberystwyth ac hefyd bu'n dysgu oedolion mewn dosbarthiadau nos dan nawdd Adran Efrydiau Allanol Prifysgol Cymru.

Mae'n siwr iddo gael profiadau diddorol iawn ym 1988 tra'n dysgu Saesneg fel ail-iaith yn Kuwait. Yn ddoeth iawn, penderfynodd ddychwelyd i Gymru.

O Ie, un peth bach arall. Cymro di-Gymraeg oedd Stephen pan aeth i Goleg y Brifysgol Aberystwyth i astudio Gwyddoniaeth. Yn 1987 graddiodd gydag anrhydedd yn y Gymraeg ac yn 1988 cwblhaodd gwrs tystysgrif addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y gobaith yw y bydd iddo Gymreigio Ieuenctid ac oedolion Morgannwg Ganol yn yr un modd. Bydd yn ymgartrefu yn Aberdâr ac yn dechrau ar ei waith ym mis Ionawr.

## CINIO DWYNWEN

25ain Ionawr 1991
Tŷ Bwyta Tafarn Cesar
Creigiau

Wedi i'r twrci hen ddiflannu a diffyg traul y pwdin 'Dolig megis atgof, dyma gyfle i'n dosbarthwyr diwyd a'n gohebwyr gonest, ein darllenwyr, a'n tanysgrifwyr, ein hysbysebwyr ---- ---- y chi, y fi, y gath a'r ci ddod i 'nabod ein gilydd.

Os ydych am fod yn bresennol yn nigwyddiad mwyaf '91 yna rhowch ganiad i'r Swyddog Cyhoeddusrwydd 0222 890571.

**Pris: £12**

Rhaid derbyn eich archeb a'ch sieciau erbyn 7fed Ionawr 1991 (Sieciau'n daladwy i 'Tafod Elái).

Roedd na ddawnsio gwyllt ym Mhentyrch ar Rhagfyr 1af. Trefnwyd dwy ddawns gan Glwb y Dwrlyn, un ar gyfer plant ysgolion uwchradd ac un ar gyfer yr oedolion. A'r grŵp gwâdd - Sobin a'r Smaeliaid. Noson i'w chofio.

# Y CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Sheila Dafis

SYMUD TŶ
Dymuniadau gorau i Mike, Martha, Gethin a Daniel Hooper yn eu cartref newydd yn 54 Parc y Coed.

BABAN NEWYDD
Llongyfarchiadau i Michael a Glenda Brewer, 40 Parc y Coed ar enedigaeth merch fach, Cerian Sarah.

CANTORION CREIGIAU
Ymddeolodd Iwan Griffiths fel cadeirydd y Côr yn ddiweddar. Diolch iddo am ei gyfraniad a phob dymuniad da i Eric Willis sy'n cymryd y gadair.

Hoffai'r aelodau ddymuno'n dda i Mr David Jones o Donteg sydd heb fod yn dda.

Cafodd y côr noson ddifyr yng nghanol dathliadau canmlwyddiant Capel Noddfa, Ynysybwl a hefyd cyngerdd ardderchog yng Nghilwern, ger y Fenni, ar Dachwedd 17.

Cyngerdd nesaf y Côr fydd yng Ngerddi Dyffryn ar Rhagfyr 14. Tenoriaid a Baswyr - mae eich angen yn y Côr! Dewch i'r ymarferiadau ar Nos Sul yn Ysgol y Creigiau, lle cewch groeso mawr.

DARLITHYDD
Llongyfarchiadau i Jeff Jones, 132 Parc y Fro ar gael ei benodi yn ddarlithydd Economeg yng Ngholeg Technegol Pontypridd. Ar hyn o bryd mae'n ddarlithydd yng Ngwent.

YSGOL FEITHRIN
Llongyfarchiadau i Mair Sparkes, Cilfynydd ar gael ei phenodi yn weinyddes yn Ysgol Feithrin Creigiau.

YSGOL GYNRADD Y CREIGIAU
Hoffai'r Prifathro ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at yr Ŵyl Ddiolchgarwch. Rhoddwyd y ffrwythau a'r llysiau i ysgol Craig y Parc, Pentyrch, a danfonwyd siec am £180 i Gymdeithas Multiple Sclerosis.

Bydd dwy o'r athrawon yn gadael ddiwedd y tymor. Mae Mrs Rhian Richards wedi ei phenodi yn ddirprwy brifathrawes yn Ysgol Gynradd Radyr ac mae Miss Joy Davies wedi ei phenodi yn aelod o staff Ysgol Babanod Pencoed.

Dymuniadau gorau iddynt yn eu hysgolion newydd. Cafodd y plant gyfle i weld Pantomeim 'Twm Siôn Cati' ym Mhorthcawl ddiwedd mis Tachwedd, a hefyd ymwelodd Cwmni Pandemonium â'r ysgol i gyflwyno dwy ddrama - 'Alice in Wonderland' ac 'Alice Through the Looking Glass'.

Cynhelir Cyngherddau carolau yn yr ysgol ar Ragfyr 10 - 13. Ar ôl eu holl gwaith caled bydd cyfle i'r athrawon ymlacio yn y ddawns ar Rhagfyr 14 a drefnwyd gan ffrindiau'r ysgol. Thema'r ddawns eleni fydd 'Nôl i'r Ysgol!' Felly pawb i'r daflod i edrych am hen shorts a chap neu gymslip a syspenders i gael 'spotted dick' a chwstard, sydd ymysg y dewis eang a blasus ar y fwydlen.

Bydd Partion Nadolig di-ri tua diwedd y tymor, felly peidiwch a bwyta gormod a chadwch fins-pei neu ddwy i Siôn Corn. Deallwn ei fod yn cychwyn dosbarthu anrhegion Nadolig yn y De eleni, felly gwely cynnar blant - a rhieni!

# SWYDDOG DATBLYGU

Ers iddo gael ei sefydlu un flwyddyn ar hugain yn ôl, mae Mudiad Ysgolion Meithrin wedi bod yn asgwrn cefn i'n Cymreictod.

Erbyn hyn mae'r Mudiad wedi creu rhwydwaith o Swyddogion Datblygu, gyda'r cyfrifoldeb o sicrhau fod y Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi (Cylchoedd Mam a'i Phlentyn gynt) yn cael cyngor a chymorth y mudiad yn genedlaethol ac yn sirol. Hefyd mae'r Swyddog Datblygu yn trefnu hyfforddiant ac yn cynrychioli'r mudiad ar bob math o bwyllgorau lleol ac yn cadw cysylltiad â'r Cyngor Sir.

Mae ardal Taf Elái yn ffodus iawn gyda phenodiad Meinir Jones fel Swyddog Datblygu. Roedd Meinir, sy'n byw yn Nhon Pentre yn swyddog llwyddiannus iawn yn y Rhondda am tua deng mlynedd cyn gadael ei gwaith am ddeunaw mis oherwydd aflechyd yn y teulu.

Ond nawr mae Meinir wedi dychwelyd i'r Mudiad yn sgîl ymddiswyddiad Glenys Jones, cyn-swyddog Taf Elái. Mae Meinir yn talu teyrnged i waith disglair Glenys yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Erbyn hyn mae bron ugain Cylch Meithrin a nifer tebyg o Gylchoedd Ti a Fi yn Nhaf Elái. Mae'r mudiad yn gwynebu prinder o arweinyddion ac mae gwaith y swyddogion wedi cynyddu yn arythrol. Un enghraifft o lwyddiant y Mudiad yw Gwaelod y Garth, gyda deg o blant yn y Cylch Meithrin newydd a phedwar ar hugain yn y Cylch Ti a Fi. Arweinydd y Cylch Meithrin yw Ann Williams (0222 810190).



Un o Bow Street ger Aberystwyth yw Meinir yn wreiddiol ac yn gyn-ddisgybl Ysgol Ardwyn a chyn-fyfyrwraig Coleg Llyfr-gellwyr Loughborough. Cyn iddi ddechrau ei gwaith gyda MYM roedd hi'n gweithio yn Llyfrgell Caerdydd a Llyfrgell Salisbury sef llyfrgell Gymraeg y Brifysgol. Mae gwr Meinir yn gweithio gyda Rheilffyrdd Prydeinig yng Nghaerdydd, ac mae ganddynt ferch sy'n athrawes Saesneg yn Siapan a mab sy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref y Rhondda.

Dymunwn pob llwyddiant i Meinir a'i gwaith holl bwysig yn ystod y blynyddoedd i ddod.

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Ann Dwynwen Davies

WEDI GWELLA
Da gweld fod Judith Evans, Maes y Sarn, yn ôl ar ei thraed ar ôl triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

YSGOL FEITHRIN
Os ydych ar gael i helpu ambell i fore yn y Cylch Meithrin ar ôl y Nadolig, cysylltwch â Siân Murphy 891520.


SIOP BARA Y PENTREF
*Heol St Illtyd, Pentre'r Eglwys*
**Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.**
Mrs Janet Evans
0443 202013
Trefnir Arlwyo

# TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

MURLUN HANESYDDOL
Bu criw o bobl ifanc, tri ohonynt yn gyn-ddisgyblion Ysgol Garth Olwg, yn brysur iawn yn creu eu darn bach eu hunain o hanes yn y Model House Llantrisant. O dan gyfarwyddyd Clare Owen a Howard Bell, arlunwyr seramig a sylfaenwyr Harlequin Studios, creodd Mathew Lloyd, Pentre'r Eglwys, Rhys Larcombe a Steven Smith - y ddau o Donteg - a disgyblion eraill o Lanhari, Bryn Celynnog a'r Pant, furlun seramig yn darlunio hanes Llantrisant. Treuliasant wyth wythnos yn paratoi ac yn lliwio'r teils. Bydd y murlun yn mynd o gwmpas yr ysgolion cyn cael ei arddangos yn barhaol yn y 'Model House', Llantrisant.


YSGOL FEITHRIN TONTEG
Cynhelir Disgo Nadolig ar Nos Wener y 14eg o Ragfyr yn Ysgol Garth Olwg. Bar a Bwffe, croeso i bawb. Tocynnau £3 gan y pwyllgor neu Eleri 208211.

Bydd plant yr Ysgol Feithrin yn mynd ar drip ar Ragfyr yr 11eg i Ferthyr. Yno byddant yn mynd yn y tren bach ar Reilffordd Brycheiniog i gwrdd â Siôn Corn ac yn cael anrheg bob un ganddo.

BADMINTON
Llongyfarchiadau i Nia Jones, Hollybush Close, Tonteg, ar gael ei dewis i chwarae badminton dros Ieuenctid Cymru yn Nulyn yn ystod hanner tymor ac ar lwyddiant y tîm yn ennill y gystadleuaeth yno.

Bu Nia hefyd yn llwyddiannus yn y Pencampwriaeth Cenedlaethol i bobl ifanc dan un ar bymtheg yn y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol. Yno, enillodd hi a'i phartner o Went y gystadleuaeth i barau cymysg a daeth yn ail yn y gystadleuaeth i unigolion a pharau merched. Hyfforddir Nia yng Nghanolfan Chwaraeon y Ddraenen Wen.

CODI ARIAN I'R URDD
Mae Elin Morse a Nerys Wyn Davies yn brysur ar hyn o bryd yn codi arian i Gronfa Urdd Tonteg a Phentre'r Eglwys trwy fynd â bob math o bethau i Arwerthiant Cist Car a gynhelir ym maes parcio Carrefour, Caerffili bob wythnos, Pob lwc iddynt gyda'r ymgyrch.




SWYDD NEWYDD
Dymunwn yn dda i Helen Jones ar ei swydd newydd yn ysgol Gwaelod y Garth ym mis Ionawr. Bydd Helen yn rhannu swydd yno gyda Mrs Heulwen Hughes. Rwy'n siwr y bydd plant bach cylchoedd meithrin Pentyrch a'r Creigiau yn ei cholli'n arw.

SALEM
Y TÔ
Bu'r sgaffaldau o amgylch y capel am rai wythnosau - arwydd bod yr adeiladwyr wrthi'n ail wneud tô y capel a'r festri. Mae wedi achosi ychydig o anhwylustod i ddefnyddwyr cyson yr adeilad, yn addolwyr ac yn rhieni a phlant yr Ysgol feithrin. Ond roedd hwn yn waith yr oedd yn rhaid ei wneud.

CYNGERDD
Gwerthwyd pob tocyn ar gyfer noson gerddorol a gynhaliwyd yn y capel nos Wener, Tachwedd 16. Trefnwyd y noson gan gangen leol Ymchwil Liwcimia. Er garwed y tywydd prin iawn oedd y seddau gweigion i wrando ar Gôr plant Pontypridd a'r gantores Gillian Humphries.

YSGRIFENNYDD
Penodwyd Ceri Preece yn ysgrifennydd newydd. Mae'n olynnu Berwyn Davies a fu'n ysgrifennydd am wyth mlynedd.

OEDFAON NADOLIG SALEM
Dydd Sul, Rhagyr 23 - Oedfa'r Plant am 10.45, Gwasanaeth Carolau Saesneg am 6 p.m.
Dydd Nadolig - Oedfa ddwy-ieithog am 10 o'r gloch.

YR ADFENT
Penderfynwyd rhoi heibio'r oedfa yn Salem ar nos Sul, Rhagfyr 2, er mwyn mynd i wasanaeth ar ddechrau tymor yr Adfent yn neuadd Dewi Sant. Arweiniwyd yr addoliad gan Gôr y Bedyddwyr yn Ne Cymru, Cambrensis. Y pregethwr gwadd oedd y Parch Derek Tidball, llywydd Undeb Bedydwyr Prydain.

I ychwanegu at brysurdeb yr Ŵyl yn Salem mae rhai o ysgolion y cylch, sefydliad y Merched a'r Guides a'r Brownies wedi cynnal eu gwasanaethau yn y capel.

## BARA CAWS

Mae sioe ddiweddaraf Bara Caws - "IO, TO A'R TWRCI" gan Mair Gruffydd yn ymwneud â phroblemau y di-gartref ifanc, problem sydd yn amlygu'i hun mewn ardaloedd gwledig yn ogystal a'r ardaloedd trefol. Cyflwynir y thema yma yn ogystal a'r pathos a'r hiwmor drwy lygaid tri chymeriad ifanc a chwaraeir gan Maldwyn John, Merfyn Jones a Nia Williams. Dilynir eu hynt a'u helynt yn y cyfnod yn arwain at y 'Dolig, a'r dilema sy'n eu gwynebu o geisio cael tô uwch eu pennau. Comisiynwyd Steve Eaves i gyfansoddi cerddoriaeth arbennig ar gyfer y sioe.

Yn lle trefnu parti Nadolig beth am drefnu noson allan i weld "IO, TO A'R TWRCI" yn Ysgol Llanhari ar Nos Lun 14 Ionawr 1991.

# TONYREFAIL A GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

PENBLWYDD
CANTORION RICHARD WILLIAMS

Ar nos Sadwrn 10fed o Dachwedd cynhaliwyd cyngerdd mawreddog yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd i ddathlu penblwydd Cantorion Richard Williams yn bump ar hugain oed. Cymerwyd rhan gan holl gorau Richard Williams sef Boneddigion y Gân, cantorion Richard Williams a Chôr Plant Tonyrefail o dan arweinyddiaeth Mr Richard Williams MBE, LRAM. Yn cyflwyno'r noson roedd Mr Bryn Williams o'r BBC, mae ef yn gerddor gwych ac wedi bod yn canu am rai blynyddoedd gyda'r Minstrels Du a Gwyn o dan arweinyddiaeth Mr George Mitchell. Rhoddodd ddatganiad gwych o'r gân werin Bugeilio'r Gwenith Gwyn i ni.

Ymysg y llu o artistiaid roedd Mr Mark Burrows, mab yr enwog Stuart Burrows, Mr Owen Money digrifwr o Ferthyr, Miss Sali Ann Jones o Gilfach Goch, merch tair ar ddeg oed ac yn feistres ar y delyn a Mrs Helen Hessey White merch Mr Richard Williams sydd yn gantores o fri erbyn hyn. Mae galw mawr am ei gwasanaeth dros y wlad a thros y môr ac fe fu'n cynrychioli Cymru dwy flynedd yn ôl yn y gystadleuaeth Canwr y Byd, Caerdydd.

Hyfryd oedd gweld Mr Jonathan Griffiths yn ol wrth y piano ar ôl iddo gael llaw-driniaeth yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd. Mae wedi bod yn cyfeilio i'r corau ers 1975. Mr Bryan Davies oedd yn cyfeilio i'r unawdwyr a Siân Davies, ei ferch, oedd yn cyfeilio i'r côr plant. Bu Siân yn cyfeilio i'r Cantorion ar eu taith i'r Undeb Sofietaidd ym 1985. Y ddau offerynwr arall oedd Ted Boyle a Ronnie Huxford.

Ffurfiwyd y côr gan Mr Richard Williams yn 1966 fel côr plant. O fewn ychydig o flynyddoedd roeddent wedi cyflawni cryn lwyddiant mewn gŵyl ganu, radio a theledu ac ar lwyfannau cyngherddau. Mae aelodaeth y côr wedi aros yn gyson i'r hyn y mae heddiw, yn gyfartaledd oedran o 18 oed. Dros gyfnod hir mae sefydlogrwydd yr aelodaeth yn glwm wrth fedrusrwydd lleisiol a dawn cyfarwyddyd yr arweinydd sydd wedi cynhyrchu mae'n debyg un o gorau ifanc mwyaf amlwg Ewrop. Mae gan y côr dechneg lleisiol arbennig ac mae eu rhaglen yn cynnwys darnau crefyddol, gwerinol, clasurol a cherddoriaeth boblogaidd. Mae eu perfformiadau yn Neuadd Albert, Llundain, wedi bod yn gyffrous ac roedd eu hymweliadau â Gwlad Disney yn 1979 ac â'r Undeb Sofietaidd yn 1985 yn llwyddiannus iawn. Mae ganddynt lawer iawn o ffrindiau a pharchwyr gartref a thramor. Maent wedi cyd-weithio gyda artistiaid blaenllaw yn y gorffennol megis Syr Geraint Evans, Syr Harry Secombe, Max Boyce, Frankie Vaughan, Owain Arwel Hughes, Stuart Burrows, Rolf Harris, Dennis Waterman, Ian Ogilvy a Rick Wakeman i enwi ond rhai.

Mae 1990 wedi bod yn flwyddyn brysur gyda chyngherddau hwnt ac yma a chyfres o raglenni "Gorau Corau Richard Williams" ar S4C. Maent wedi cael eu gwahodd i Ganada yn 1991 yn westai yn y "Chateau Gai Festival" yn Quebec.

Pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.



ATHRAWES

Llongyfarchiadau i Mrs Bethan Samuel o Efail Isaf ar gael ei phenodi yn athrawes barhaol yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail. Mae Mrs Samuel wedi treulio blwyddyn yn yr ysgol fel athrawes dros dro, pob llwyddiant iddi yn ei swydd ac i'r dyfodol.



Y GUILD GILFACH GOCH

Ar Nos Fercher, 24ain o Hydref cynhaliodd y Guild o dan lywyddiaeth Miss K.O. Pritchard ei Ffair Hydref yn Neuadd Gymunedol Gilfach. Roedd yno baratoi brwd wedi bod dros yr wythnosau blaenorol am fod y noson hon a'r flwyddyn wedi ei neilltuo i godi arian tuag gronfa Eisteddfod yr Urdd, 1991 a fydd yn cael ei chynnal yn Nhonyrefail. Ar ôl y llafur mawr bu'r fenter yn llwyddiant ysgubol a chasglwyd dros £700. Roedd yno bob math o bethau ar werth ac maent yn haeddu pob canmoliaeth am eu gwaith.

Llongyfarchiadau mawr iddynt am helpu'r apêl i oresgyn y targed a roddwyd i Donyrefail a Gilfach Goch.

YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL

Ar ddydd Gwener 23ain o Dachwedd i gydredeg â gweithgareddau'r cyfryngau bu plant yr ysgol yn trefnu arwerthiant i godi arian tuag at Plant Mewn Angen. Mae'r plant wedi gwneud yn dda pob blwyddyn ac eleni bu'r gweithgarwch yn ysgubol. Pan ymwelais i â'r ysgol tua dau o'r gloch roedd y neuadd yn fwrlwm o brynu a gwerthu, roedd y cyffro i'w weld ar wyneb pob plentyn o bob oed. Casglwyd £175 tuag at yr apêl a gobeithio bydd yr elw yn cael ei ddefnyddio tuag at achosion cyfiawn. Mae'r plant yn deilwng o bob canmoliaeth a llongyfarchiadau.

Ar Ddydd Llun, 26ain o Dachwedd aeth rhan fwyaf o blant yr ysgol i weld pantomeim Cymraeg yn Neuadd y Parc a Dare.

# YNYSYBWL

Gohebydd Lleol: Nansi Valentine

DATHLIADAU'R CANMLWYDDIANT

Mis yn ôl roedd aelodau Capel Noddfa yn edrych ymlaen ac yn paratoi ar gyfer eu dathliadau. Mis yn ddiweddarach mae pawb yn edrych yn ôl ac yn diolch am yr hyn a gafwyd.

Yn ystod wythnos lawn olaf mis Hydref, fe gynhaliwyd dwy oedfa bregethu Saesneg dan arweiniad y Parch Keith Phillips, Porth, Gymanfa Ganu fendigedig dan arweiniad Delwyn Siôn, Caerdydd, pasiant plant yr Ysgol Sul, oedfa defosiynol, Cinio'r Dathlu, a Chyngerdd yng nghwmni Cantorion Creigiau. Yn ogystal â'r cyfarfodydd cynhaliwyd arddangosfa hyfryd o flodau yn y capel, ac yn y Festri roedd arddangosfeydd hen luniau a chelf a chrefft.

Ar ddiwedd yr wythnos sef Hydref 27ain a 28ain daeth nifer ynghyd i addoli yn y Cyfarfodydd Pregethu Blynyddol. Siom oedd clywed am anhwylder y Parch Cynwil Williams a'i fethiant i wasanaethu yn y cyfarfodydd ond ar y llaw arall, mawr oedd diolchiadau Noddfa i'r Parch T.J. Davies am ei barodrwydd i sefyll yn y bwlch a chynnig negesau perthnasol ac amserol. Hyfryd oedd gweld Miss Bethseba Morgan, 95 oed yn yr oedfa nos Sul. Fe'i bedyddiwyd gan y Parch Joseph Edwards, gweinidog Noddfa 1902 - 1909.

Diolch am y can mlynedd sydd wedi mynd, edrychwn ymlaen i'r can mlynedd nesaf.

PRIODASAU

Ar Ddydd Sadwrn, Hydref 27 yn Eglwys Tabernacl fe briodwyd Siriol Lauder, merch hynaf Mrs Llinos Lauder a'r diweddar Ceri, â Steven Butterworth. Gweinyddwyd gan y Parch Allan Pickard, Tonteg.

Ar y Sadwrn canlynol, sef Tachwedd 3ydd cynhaliwyd priodas arall yn y Tabernacl. Tro Rhianydd Newberry a Emyr Llewelyn Gruffudd oedd. Gwasanaethwyd gan y Parch Dr. Dewi Eurig Davies.

Pob bendith i Mr a Mrs Butterworth a Mr a Mrs Gruffudd.

MARWOLAETHAU

Syfrdanwyd y pentref pan glywyd am farwolaeth sydyn lawn Mrs Yvonne Elliot, Buarth-y-Capel. Bu farw yn Ibiza tra roedd hi ar ei gwyliau gyda ffrindiau.

Trist oedd clywed hefyd am farwolaeth sydyn Mrs Horace Tong, New Road a fu farw Hydref 27. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf tuag at y teuluoedd i gyd.

# MEISGYN

Gohebydd Lleol: Meinir Rees

DYRCHAFIAD

Braf oedd clywed am ddyrchafiad Mari Evans sy'n un o blant y pentref yn Adran y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus H.T.V. Mae'r cyn Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus nawr yn Reolwr Cysylltiadau Cyhoeddus.



Mae Mari yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Llanhari ac ymunodd â H.T.V. yn Hydref 1987. Hoffwn ddymuno dyfodol hapus a llwyddiannus iddi yn y swydd newydd.

TELEDU LLIW

Daeth Teledu lliw arall i Meisgyn ychydig o wythnosau yn ôl i dŷ John a Lynva Pugh, Clôs Beechlea. Dyma'r ail waith i'r pentrefwyr fod yn lwcus yn loteri'r Eisteddfod.

# YSGOL GARTH OLWG

GWOBR CYNLLUNIO CLAWR LLYFR

Llongyfarchiadau i Kristen Jeffs a Ceri Richards ar ennill Cystadleuaeth Llyfrgell Pentre'r Eglwys.

NOFIO

Bu nifer o'r ysgol yn llwyddiannus yn Rownd Sirol Pencampwriaeth Nofio yn ddiweddar. Cyntaf Dull Pili Pala (Bechgyn) - Rhys Breckon. Cyntaf Dull Cymysg Unigol - Rhys Breckon. Cyntaf Dull Cymysg Unigol (Merched) - Lowri Davies. Ail Dull Broga (Merched) - Lowri Davies. Ail Dull Cefn - Gareth Gibson. Dymunwn yn dda i'r plant fydd yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd genedlaethol yn Llanelli.

DYDDIADAU PWYSIG

Ffair Llyfrau: Tachwedd 29. Ffair Nadolig: Rhagfyr 8fed am 11.00 yn Neuadd yr Ysgol. Gwasanaeth Nadolig - Capel y Tabernacl, Efail Isaf: Rhagfyr 12 am 6.30. Cinio Nadolig yr Ysgol: Rhagfyr 14. Parti Nadolig, Adran y Babanod - Rhagfyr 18. Disgo Nadolig, Adran Iau - Rhagfyr 19.

PLANT MEWN ANGEN

Bu plant yr ysgol yn brysur drwy'r dydd ar y 23ain Tachwedd yn codi arian i Blant Mewn Angen a llwyddwyd i godi £250 at yr achos da yma.

Aeth Mrs Sylvia Davies, un o'r athrawesau, a rhai o ddisgyblion yr ysgol lawr i Stiwdio'r BBC yng Nghaerdydd i gyflwyno'r siec.


CANOLFAN CREFFT A DYLUNIO
Bull Ring, Llantrisant, Morgannwg Ganol. (0443) 237758

Y PROFIAD CYFLAWN MEWN CREFFTAU

MODEL HOUSE

STIWDIO GREFFT AGORED

ARDDANGOSFEYDD

Tachwedd 27 - Ionawr 6 Gwaith Gwydr

Nos Fercher 12 Rhagfyr am 7 o'r gloch
CANU CAROLAU

Dydd Sadwrn a Dydd Sul 15 a 16 Rhagfyr
SIOP SIOCLEDI Y PLANT
Gwneud pethau melys ar gyfer yr Ŵyl

Dydd Mercher 19 Rhagfyr
SIOPA NADOLIG

AR AGOR MAWRTH – SUL, 10am–5pm.

# PUMED WYL DDRAMA



Criw Panto Llanhari



Gwenlyn Parry yn cyflwyno Cwpan yr Ŵyl i Ysgol Gyfun Llanhari.

# BARN Y BEIRNIAD

NOS IAU 23 TACHWEDD

Pantomeim Ysgol Gyfun Llanhari

CERIDWEN A'R CRWBANOD

Roedd yn amlwg o'r cychwyn cyntaf fod Ysgol Gyfun Llanhari wrth eu bodd yn gwneud y pantomeim yma. Gwneud yn yr ystyr o fod wedi eu greu eu hunain (yn ddeialog, stori a chaneuon) a hefyd yn y cyflwyno i'r gynulleidfa yn Neuadd Dowlais.

Roedd y cyfan yn gyforiog o elfennau hanfodol y pantomeim traddodiadol - stori dda gyda chyfeiriadau cyfoes, sgetsys digri oedd yn unedau diddorol ynddynt eu hunain, dawnsio wedi eu drefnu yn gelfydd i apelio at a) pobol ifanc b) cynulleidfa hŷn, digwyddiadau trwstan (slapstick) heb anghofio, wrth gwrs, am y dylwythen deg ffwdanus (yn cael ei hactio gan ddyn) oedd yn gweu trwy'r stori ac yn llywio'r cyfan fel bo'r gynulleidfa yn cael eu gorfodi i ymateb. Roedd y bobl mewn oed, y bobl ifanc a'r plant yn chwerthin trwy gydol y cyflwyniad. Dyma beth yw hanfod pantomeim a phwy oedd y crwbanod? Ond y 'turtles' wrth gwrs. Ai ysgol Llanhari tybed yw'r cyntaf i greu pantomeim am y 'turtles'? Roeddwn wedi'm synnu gan safon y canu a'r gerddoriaeth ac, yn ôl yr hyn rwy'n ddeall, un o ddisgyblion yr ysgol oedd yn gyfrifol am ei chyfansoddi. Llongyfarchioadau i bawb. Noson i'w chofio.

DRAMA YSGOL GYFUN GLANTAF

Cyfres o olygfeydd dan y testun 'Rhyfel' oedd cyflwyniad Glantaf, roedd y cyfan ar ffurff rhaglen ddrama-ddogfen. Roedd ganddynt olygfa effeithiol yn ymdrin â streic y glowyr yn 1984, ac am ddigwyddiad a arweiniodd i Bob Roberts gael ei ddedfrydu i garchar. Roedd grymuster sylfaenol y sgets yma yn cael ei ddwysau gan ddrama go iawn - dymchweliad Thatcher - yr union ddynes a sigodd y glowyr yn cael ei hysigo eu hun ar yr union noson y chwaraeid y ddrama gan bobl ifanc Glantaf.

Fy nheimlad cyffredinol oedd fod y bobl ifanc yma o ddifri ynghylch eu pwnc ac yn credu yn yr hyn yr oeddynt yn ei ddweud. I hollti un blewyn, hoffwn petaent wedi gallu clymu eu golygfeydd ar y testun rhyfel yn fwy celfydd gan fod ychydig benbleth wethiau o ran y gynulleidfa pryd roedd un adran wedi ei chwblhau a'r llall yn dechrau. Perfformiad canmoladwy iawn serch hynny.

NOS WENER 23 TACHWEDD

Cyflwyniad gan Gwmni'r Fuwch Goch

SIK-SIK BRENIN Y CONSURWYR

Addasiad gan Gareth Traws (Jones) o ddrama Eidalaidd ddechrau'r ganrif hon gan Eduardo de Filippo.

Cast o actorion oedd wedi peidio â bod yn bobl ifanc ers ychydig o amser bellach (o leiaf roeddynt yn dipyn hyn na disgyblion Glantaf - yn wir onid oedd athro o Ysgol Glantaf yn eu plith?) P'run bynnag, roeddynt yn griw llawn profiad, yn gwybod holl driciau'r theatr ac wedi cymryd rhan mewn dipyn go lew o ddramau yn y gorffennol, ddwedwn i. Mae dipyn o gwyno wedi bod yn ddiweddar ei bod yn anodd clywed ynganu actorion proffesiynol yn y teithiau proffesiynol (awgrymodd





rhywun mai dylanwad drwg teledu oedd hyn pryd roedd y meicroffon yn hawlio pob cynildeb o ran ansawdd anelu llais i glust cynulleidfa.) Roedd geirio a chyfathrebu y grwp yma yn hollol glir. Roeddwn wedi dotio at eu defnydd o'r llwyfan. Defnyddient bob modfedd ohono, heb aros fwy na thri eiliad yn yr un llecyn. Pedwar cymeriad oedd yn y ddrama a'u cyd-chwarae yn gynnil a medrus. Cadwent eu cynulleidfa ar ymyl eu seddau trwy gydol y perfformiad.

Teimlais weithiau y gallai'r consuriwr fod wedi newid gêr (i lawr) weithiau. Sylwais fod ei wyneb yn slafar o chwys heb gynhorthwy coluro, ond dyna fo, efallai ,ai cymeriad llawn tensiwn oedd o i fod beth bynnag. Cyflwyniad arbennig iawn o dda y gwelais ei waeth droeon gan gwmniau proffesiynol.



CWMNI RHOS-Y-GAR yn cyflwyn
TRO AR FYD
gan Brenda James

Fe aeth y cwmni yma ar goll ar y ffordd a bu rhaid i ni, yn Neuadd Dowlais, ddisgwyl amdanynt am gryn amser. Yn wir y Trefnydd, o fentro allan i'r noson ddrycinog ddaeth o hyd iddynt yn ffwndro ar y groesffordd. Ond, chwarae teg iddynt, fe wnaethont theatr o'r diwedd. Pirandello yn ysgrifennu unwaith am Chwe Chymeriad yn chwilio am Awdur, Cwmni Rhos-y-Gâr o Lanaman, gydag wyth cymeriad yn chwilio am gynulleidfa a diolch iddynt am lwyddo i'w cyrraedd o'r diwedd.

Comedi digon hwyliog am Anti Leusa yn cael ei pherswadio i fynd am gompo gan y Cownsil am faglu dros 'bollard'. Roedd y cyflwyniad yn nhraddodiad y gomedi Gymreig cefn-gwlad y mae llawer ohonom wedi ei mwynhau yn nyddiau ein hieuenctid. Ond chwarae teg, roedd digon o gyffyrddiadau cyfoes fel bod Anti Leusa yn mynnu gwrando ar Pobol y Cwm yn lle mynd i'r ysbyty i gael triniaeth gan y physiotherapydd.


Efallai y byddai rhywun yn dweud fod y cymeriadau'n stoc ond felly mae comediau. Credaf y gallai'r awdur (Brenda James oedd yn chwarae'r brif ran) fod wedi tocio dipyn ar y ddrama (tynnu o leia chwarter awr ohoni). Roedd gormod o ail-adrodd parthed damwain Anti Leusa a'r compo ac, yn wir, nid oedd angen yr olygfa hir yn y diwedd rhwng y gweinidog a'r darpar bâr priod. Roedd Wncwl Twm, fel chwa o awyr iach yn aml, gyda'i storiau amdano'n grwt.

Diolch fod cwmniau fel hyn yn mynd i'r drafferth i ysgrifennu, actio a chyflwyno dramau yng nghefn gwlad Cymru. Nid yw pawb yn gildio yn slafaidd i'w cadair freichiau a dim ond gwrando ar Pobol y Cwm.

Mae cryn amrywiaeth yn y tair drama yng nghystadleuaeth Tlws Ifan Wyn, amrywiaeth o ran oed, arddull, a hŷd (roedd drama Rhos-y-Gâr yn bump act). Fy nhasg i oedd penderfynu pwy oedd wedi fy mhlesio i (a'r gynulleidfa gan fy mod yn rhan ohoni). Doedd dim rhaid i mi betruso ynghylch hynny. Cwmni'r Fuwch Goch oedd hwnnw ac yn llwyr haeddu Tlws Ifan Wyn. Hoffwn nodi mai anrhydedd arbennig i mi yw cyflwyno Tlws Ifan Wyn i'r cwmni buddugol. Bu Ifan ers blynyddoedd bellach yn gefn i'r ŵyl arbennig hon fel cynhyrchydd ac actor. Braint hefyd oedd ei gael yn ffrind. Teimlaf fod Cwmni Glantaf a Rhos-y-Gâr yn wir haeddu bod yn ail yn y gystadleuaeth hon ond beth am gystadleuaeth y pantomeim? Un cwmni oedd yn y ras, Cwmni Llanhari, ac yn wir haeddu y wobr gyntaf yn yr adran honno. Mae trydedd gwobr, sef y cwmni gorau yn ystod yr ŵyl i gyd. Nid wyf yn petruso i roi'r wobr honno hefyd i Ysgol Llanhari am eu dyfeisgarwch, eu brwdfrydedd a'u hymroddiad. Roedd eu hwyl byrlymus yn heintus.

GWENLYN PARRY







# HEN DRADDODIADAU'R NADOLIG

Pa draddodiadau yw'r rhain?

Rhaid ichi ddatrys y geiriau a'u rhoi i gyfateb y lluniau cywir.

LDYW RIAF Y.     Y LYPNIAG.
NIGNACEL.     'RELHA RYDW.











## *NADOLIG LLAWEN*

Roedd y Nadolig yn wahanol iawn erstalwm ... dim teledu na trydan hyd yn oed.

Mae pethau yn wahanol nawr i'r adeg pan oedd eich rhieni'n fach. Ond mae y rhan fwyaf o'r pethau pwysig yn aros yr un peth ... SIÔN CORN, PWDIN NADOLIG, MINS PEIS, ANRHEGION, a'r peth pwysicaf un un Stori'r Nadolig ym Methlehem.





## WYDDECH CHI??

PWDIN NADOLIG

Cig oedd mewn Pwdin Nadolig erstalwm hefyd. Cig, llysiau a pherlysiau. A dweud y gwir rhyw fath o gawl posh oedd e. Cogydd Gwilym Gôncwerwr a wnaeth y cyntaf ar ddydd Nadolig yn 1066. Erbyn heddiw mae pwdin Nadolig yn llawn o ffrwythau. Diolch byth am hynny... Ydych chi wedi ceisio rhoi hufen yn eich cawl neu yn waeth na hynny beth am roi cwstard ar ben cig! YCH A BYCH.

MINS PEI

Cig oedd mewn mins pei erstalwm .. cig wedi'i falu'n fân, cig cyw iâr, cig ffesant, cwningen (sorri llysieuwyr). Ond nawr ffrwythau sydd mewn mins pei. Oblong oedd eu siap yn arfer bod .. yr un siap â chrud y baban Iesu. Roedd y cig tu fewn yn cynrychioli'r gwellt yn y preseb.

Pan fyddwch yn bwyta eich mins pei gyntaf rhaid ichi wneud dymuniad. Dylech fwyta un bob dydd o'r deuddeg diwrnod sydd dros y Nadolig ac wrth eu bwyta daw lwc ichi bob mis o'r flwyddyn. MEDDEN NHW....







TINSEL

Mae tinsel yn bert ar y Goeden Nadolig yn enwedig pan fydd y golau'n disgleirio arno. Ond a wyddech chi fod y tinsel i fod i'n hatgoffa o'r stori am y corryn a wnaeth we ar geg yr ogof lle cyddiai Mair a Joseff pan oedden nhw'n ffoi oddi wrth Herod?





CELYN, AERON DAIL BYTHWYRDD

Dim ond planhigion bythwyrdd oedd ar y cloddiau i addurno'r tai erstalwm. Doedd dim papur lliwgar i'w gael felly addurnai pawb eu tai gyda chelyn ac aeron coch. Mae'r celyn pigog yn ein hatgoffa o'r goron ddrain a roddwyd ar ben y baban Iesu wedi iddo dyfu. Meddyliwn am ei waed wrth edrych ar yr aeron.




## Adolygiad o'r Pantomeim

Ddoe aeth Ysgol Evan James i weld pantomeim Twm Siôn Cati. Roedd Twm yn fab i Mrs Cati. Roedd gwrach digywilydd eisiau cael gwared o Twm, Mrs Cati, Piwmp a Talbot y Ceffyl o'u cartref os na allent ddarganfod y trysor.

Ysgrifennodd Ceri Dig Iawn lythyr at deulu Twm i ddweud wrthynt am symud allan o'r tŷ am wyth o'r gloch dydd Llun, os na fyddent yn symud byddai Treg a Ron yn lladd Leri cariad Twm. Aeth Twm, Mrs Cati, Piwmp a Talbot y ceffyl dewr i fyw mewn ogof. Drwy lwc daeth Twm o hyd i drysor y wrach Ceri Dig Iawn yn cuddio o dan garreg yn yr ogof. Bu ymladd ffyrnig yn y castell (Treg a Ron yn erbyn Twm a Piwmp). Yn y diwedd priododd Twm Leri (y ferch brydferth oedd yn seler y castell).

Roedd y gerddoriaeth yn dda yn enwedig cyfeilliant i gân yr ysbrydion. Roedd Mrs Cati yn ddwl iawn ac roeddwn yn hoffi Idris Charles yn chwarae'r rhan. Llwyddodd y Brodyr Gregory i wneud i'r plant chwerthin drwy'r amser yn ystod y pantomeim ac roedd Toni Caroll (y wrach) yn edrych yn hyll yn ei gwisg. Roedd Twm Siôn Cati yn well na phantomeim llynedd, Robin ap Croeso, achos fod Twm Siôn Cati yn sôn am leidr pen ffordd enwog.

Andrew Fisher

# Plant Ysgol Evan James

Ddoe aethon ni i'r pantomeim. Roedd Twm Siôn Cati yn byw mewn pentref bach iawn. Roedd o'n lladrata oddi wrth y cyfoethog ac yn rhoi i'r tlawd. Un diwrnod pan roedd hi'n benblwydd Mrs Cati roedd Twm wedi anghofio ei phenblwydd. Roedd Treg a Ron, meibion Ceri Dig Iawn yn gorfod lidio i gorchmynion eu mam a cheisio lladd Twm Siôn Cati. Roedd Treg a Ron mewn cariad a Leri hefyd. Roedd Ceri Dig Iawn yn hynod o hyll ac yn greulon. Roedd Twm yn garedig iawn. Doedd dim yr oedd Twm yn hoffi ei wneud yn well na helpu pawb.

Roedd Mrs Cati yn hoff iawn o'i mab. Ond ar ei phenblwydd roedd Twm a Piwmp yn mynd i ladrata ac wedi anghofio ei phenblwydd. Cafodd Mrs Cati ddwy anrheg un gan fechgyn y band a'r llall gan berthynas o wlad bell. Un potel dŵr poeth a glôb. Erbyn hyn roeddynt yn byw mewn ogof. Roedd Twm ar ei fordd i ladrata pan welsant trysor Ceri dig Iawn. Ar y pryd roedd Leri, cariad Twm yn y palas, mewn seler dywyll dywyll. Gwelodd Twm y trysor ac aeth i balas Ceri Dig Iawn. Cyrhaeddodd Twm ac achub Leri mewn pryd. Ar y diwedd roedd Treg a Ron wedi dysgu cân i ni, ac roedden ni wedi ei chanu yn ystod priodas Twm a Leri.

Roedd yr actorion yn dda. Doedd y wrach ddim ddigon hyll. Ond roedd gwisgoedd pawb, yn enwedig Mrs Cati yn effeithiol iawn. Buaswn i wedi rhoi dillad mwy golygus i Twm. Roedd y gerddoriaeth yn siwtio'r thema'n fawr, a phawb yn ymuno yn y clapio. Roedd y set yn dda, roeddwn yn gallu gweld y castell, y tai a'r ogof yn glir.

Mwynheais y pantomeim yn fawr iawn eleni a dyma yw barn gweddill yr ysgol hefyd dwi'n siwr.

Angharad Morgan
9 oed.

Yn y pantomeim roedd Ceri Dig Iawn (y wrach) eisiau cael gwared o Twm, Mrs Cati, Piwmp (ei ffrind) a Talbot y ceffyl. Felly symudodd Twm a phawb i ogof yn y goedwig ond roedd cariad Twm, Leri, yn garcharor yng nghastell Ceri Dig Iawn. Roedd Twm eisiau priodi Leri ac achubodd hi o'r castell. Roedd Mam Twm yn cael ei phenblwydd yr un diwrnod a roedd Ledy Joseffin a'i ffrind yn dod i'r pentref. Roedd Twm a Piwmp eisiau dwyn eiddo Lady Joseffin a'i ffrind a rhoi yr eiddo i'r tlawd oedd yn byw yn y pentref. Priododd Twm a Leri a bu pawb yn hapus byth wedyn.

Hoffais y pantomeim eleni ond gallai fod yn fwy doniol wrth roi ychydig mwy o jôcs ynddo a chael mwy o ymateb gan y gynulleidfa.

Roedd Treg a Ron yn dda achos mae'r Brodyr Gregory yn gallu dal sylw plant am amser hir. hoffais Owain gwilym ynchwarae rhan Piwmp hefyd gan ei fod yn actor da bywiog. I ddweud y gwir llwyddodd yr actorion i gyd i fy mhlesio. Dim ond darn byr am y Pantomeim yw hyn ac os cewch y cyfle dylai pawb fynd i'w weld.

Iolo Morgan Jones.

## GŴYL DDRAMA

Hoffai Tafod Elái ddiolch i'r canlynol am eu cymorth a'u nawdd i'r Ŵyl Ddrama eleni:-
Cwmni Cambrensis, Atsain, Fflic, Roy Davies, Gwenlyn Parry, Neuadd Dowlais, Cylch Meithrin Tonteg a phawb fu'n darparu lluniaeth.

## YMATEB I'R ŴYL

Gyda chymaint o alwadau arnom y dyddie 'ma mae'n hawdd deall pam na lwyddodd ambell gwmni i gael pen ar y mwdwl erbyn yr Ŵyl eleni. Mewn ffydd a chan fod cynifer wedi mynegi eu boddhad o fod yn bresennol eleni, aethpwyd ati i logi'r neuadd ar gyfer yr union wythnos y flwyddyn nesaf.

Yr hyn y carai Tafod Elái ei wybod yw barn ein darllenwyr am yr Ŵyl. A oes lle iddi mewn calendr sydd eisioes mor llawn? Mae'n siwr fod iddi wendidau a diffygion. A oes modd eu dileu a gwella'r sefyllfa? Yn bennaf carem glywed oddi wrth yr unigolion allweddol hynny sy'n gallu siarad ar ran ysgol, capel, cymdeithas neu glwb ac yn gallu datgan eu bwriad i gystadlu'r flwyddyn nesaf. Nid pobol y talentau yw'r unigolion hyn o anghenrhaid. Yn hytrach, nhw yw'r bodau hynny sy'n fodlon proclo eraill ac yn barod i alw criw ynghyd.

Chi'r "unigolion allweddol hynny" sydd â llygaid i ddarllen, nodwch y dyddiadau 20 i 22 Tachwedd 1991 yn eich dyddiadur ac ar ddechrau gweithgarwch yr Hydref beth am roi'r flaenoriaeth i'r Ŵyl?

# YR EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

SWYDD NEWYDD
Llongyfarchiadau i Bethan Samuel, 7 Pen-y-waun ar ei phenodiad yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail. Bu Bethan yn athrawes gyflenwi yn ardal Taf Elái am flynyddoedd lawer ond daeth awydd arni ymgartrefu yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail ar ôl bod yno'n cyflenwi am gyfnod o flwyddyn.

Y TABERNACL
BEDYDD
Daeth nifer o aelodau'r Tabernacl, ffrindiau a theulu Colin a Nia Williams, Yr Hafod, Llys Gwynno, Creigiau ynghyd ar fore Sul, Tachwedd 4ydd ar achlysur hapus bedyddio Morgan Rhys, brawd bach newydd Elin.

CRONFA APÊL
Bu aelodau'r Oedfa Saesneg yn brysur iawn ddechrau mis Tachwedd yn codi arian i Gronfa Apêl Taf Elái a'r Rhondda ar gyfer agor Canolfan newydd i ofalu am ddioddefwyr y Cancr ym Mhontypridd. Dechreuodd y gweithgareddau ar Nos Iau, y cyntaf o Dachwedd gyda Cwis yn Neuadd y Pentref. Y cwis-feistr oedd y Parchedig Eirian Rees a thim Teulu'r Trace o'r Creigiau oedd yr enillwyr. Ar y nos Wener trefnwyd noson yn fwyaf arbennig i'r plant gyda rhai o'r pentrefwyr yn adrodd chwedlau Cymru. Cafwyd Chwedl Llyn y Fan, Meddygon Myddfai, Stori Cantre'r Gwaelod a hanes Guto Nyth Brân. Arddangoswyd hen deganau ac offer a chafwyd hwyl yn dyfalu ac egluro beth oedd pwrpas y gwahanol offer. Ar ddydd Sadwrn daeth rhyw ugain o grefftwyr lleol ynghyd i Neuadd y pentref i arddangos a gwerthu. Mae'n syndod faint o grefftwyr sydd yn y pentref. Roedd y stondinau'n amrywio o waith gwau, gwmnio, brodio, gemwaith ac arlunio.



PRIODAS
Llongyfarchiadau i Karen Griffiths, 59 Heol y Ffynnon a Llŷr Williams ar eu priodas yng Nghapel y Tabernacl ar Ddydd Sadwrn, Hydref 27ain. Merch Colin a Shelagh Griffiths yw Karen ac mae ar hyn o bryd yn gweithio yng nghangen Parc Victoria o Fanc Lloyds yng Nghaerdydd. Ail fab Gwilym a Wenna Williams o'r Rhyl yw Llŷr ac mae yntau'n gyfeithiwr yng Nghaerdydd. Y gwas priodas oedd y Doctor Dylan Williams, brawd y priodfab a Llinos Gwilym, chwaer y priodfab oedd y forwyn briodas.

Edrychai Karen yn ddeniadol iawn mewn gwisg laes wen, y wisg a wisgodd Shelagh, ei mam, ar ddiwrnod ei phriodas hithau. Mwynhawyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Moat House yng Nghaerdydd ac enciliodd Karen a Llŷr am gyfnod i fwrw'u swildod yn Tunisia.

Ar y nos Sul cafwyd Gymanfa Ganu yn y capel gyda Mrs Pam Mahoney, Dirprwy Brifathrawes Ysgol Maes y Bryn yn arwain. Cafwyd eitemau cerddorol gan blant Ysgol Maes-y-bryn ac aelodau Teulu Twm a datganiad ar yr Organ gan Miss Vera Gammon. Yn ystod y noson cyflwynwyd siec o £ 1000 i'r Gronfa Apêl gan Mrs Halliday. Daeth y gweithgareddau i ben ar Nos Lun y pumed o Dachwedd gyda Barbeciw a Choelcerth ym mharc y pentref. Rhaid edmygu brwdfrydedd ac egni y nifer bach yma o aelodau sydd mor weithgar.

GWEITHGAREDDAU NADOLIG Y TABERNACL
Bydd Croeso cynnes i chi ymuno ag aelodau'r Tabernacl eleni eto i ddathlu'r Nadolig.

Rhagfyr 11 - Gwasanaeth Carolau Ysgol Maesybryn.
Rhagfyr 12 - Gwasanaeth Carolau Ysgol Gymraeg Garth Olwg
Rhagfyr 14 - Parti'r Ysgol Sul (yn y prynhawn) a Chanu Carolau o amgylch y pentref.
Rhagfyr 16 - Gwasanaeth Nadolig y Plant am 10.30 a.m.
Rhagfyr 23 - Gwasanaeth Nadolig Aelodau Teulu Twm am 10.30 a.m
Rhagfyr 22 - 24. Teulu Twm yn cerded i Fethlehem (Dyfed!)
Rhagfyr 24 - Gwasanaeth noswyl y Nadolig yn y Capel am 11 p.m.
Rhagfyr 26 - Rasys Gŵyl San Steffan 11 a.m.


**CANOLFAN HANESYDDOL A DIWYLLIANNOL PONTYPRIDD**



AR AGOR
Dydd Mawrth - Dydd Sadwrn 9 am - 5 pm
**MYNEDIAD**
Oedolion 25c - Plant 15c
**CANOLFAN CROESO**

**Heol y Bont, Pontypridd**
**Ffon (0443) 402077/480786**
CYNGOR TREF PONTYPRIDD


AR WERTH

**Lliain sychu llestri**
**Cylch Meithrin Creigiau**
am £2.00
oddi wrth Helen Middleton
0222 891424
neu Londis, Creigiau
Er budd y Cylch Meithrin

# YMWELIAD Â LLANGRANNOG

## Gan Blant Ail Iaith Ysgol y Pant

Yn ddiweddar fe aeth criw o ddosbarth dau a dosbarth tri i Langrannog. fe gawson nhw hwyl mawr. Fe aeth rhai ohonon ni, disgyblion dosbarth chwech i helpu a chadw llygaid ar Mrs Beach wrth gwrs. Dyma bwt byr o'r hanes.

Fe adawon ni Ysgol y Pant prynhawn Gwener, cyrraedd Llangrannog a chael swper a threfnu y cabanau. Codi'n gynnar bore Sadwrn a gweithgareddau. Cinio am ddeuddeg - mae bwyd Llangrannog yn wych. Yna gweithgareddau yn ein grwpiau ond ar ôl swper fe gawson ni dwmpath dawns a disgo. Trafferth cysgu nos Sadwrn achos yr holl "midnight feasts". Codi bore Sul gyda llygaid croes, - gweithgareddau, pacio, cinio a ffarwelio â Llangrannog.

Fe ofynon ni i rai o'r plant a aeth o ddosbarth dau a thri am sylwadau:

"Roedd hi'n wych yno" dywedodd Catherine a Louise Thayer. "Roedd y bwyd yn ofnadwy" dywedodd Rhys Thomas a David Raikes. "Roedd hi'n hwyl" dywedodd Kate Evans a Batchelor. "Roedd y swogs yn grêt meddai Joanna a Claire. "Fe fwynheues i'r sgiio" meddai Sarah John.

"Bendigedig" meddai rhan fwyaf o ddosbarth tri "Gobeithio rydyn ni'n cael mynd eto".

Roedden ni y swogs yn hapus iawn i gyrraedd adre nos Sul ac yn fwy hapus byth i weld gwely heb sŵn plant y tu allan, ond ar ôl dweud hynny fe hoffen ni fynd eto, efallai yn yr haf pan fydd y tywydd yn well

Ceri Howell, Alsion Parker
Robert Thompson, Cara O'Donovan
Dosbarth 6

DOSBARTH NOS

Mae criw o ddysgwyr yn mynd i Ysgol Llantrisant ar nos Iau a rydyn ni dosbarth 6 wedi bod yno am sgwrs â nhw rhyw ddwywaith neu dair nawr. Mae'n brofiad gwych cael ymarfer siarad yn Gymraeg y tu allan i bedair wal y dosbarth yn ein hysgol ond yn gwybod hefyd fod y criw yma am loywi eu Cymraeg fel ninnau.

Ceri Howel, Alison Parker
Dosbarth 6

# LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Beti Treharne

DEWRDER

Ar Dachwedd 13 bu Stephen White o Donysguboriau yn ddewr iawn wrth achub Mrs June Hope o'i hystafell wely yng Nghaerdydd. Roedd yn rhaid i Mr White gael ocsigen gan y dynion tân gan ei fod wedi anadlu cymaint o fwg. Aeth Mrs Hope i'r ysbyty an gyfnod, ond diolch i ddewrder Mr White roedd hi nôl gartre cyn pen dim.



Pc Stephen White

YSGOL GYMRAEG LLANTRISANT

Ar ddydd Iau, Tachwedd 22 fe gafodd plant yr ysgol y cyfle i wisgo gwisg ffansi i'r ysgol. Fe gasglwyd arian ar gyfer 'Plant Mewn Angen'.

Ym mis Hydref fe gafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch arbennig. Daeth Mrs Elenid Jones i siarad â'r plant. Diolch y fawr iddi am ei chyfraniad. Rhoddwyd yr arian a gasglwyd i Gymorth Cristnogol.

Ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 18, cynhelir y Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Llanrisant am 2 o'r gloch. Bydd plant yr ysgol hefyd yn perfformio gyda Chantorion Pontyclun yn y Ganolfan Hamdden Llantrisant ar yr 11fed o Ragfyr am 7.15. Ar ddydd Llun Tachwedd 26 bu'r plant yn Nhreorci i weld Pantomeim.

Cafwyd Ffair Nadolig yn yr ysgol ac roedd na stondinau o bob math yno - cardiau Nadolig, llyfrau, basgedi o flodau, sgidiau, colur ...a.y.b. Diolch yn fawr i'r rhieni prysur a drefnodd y noson.

Yn ystod mis Tachwedd fe fu plant yr ysgol yn ymweld â llefydd diddorol - gweld y pobydd wrth ei waith yn siop Tesco, ymweld â'r fferm, gwaith o amgylch tref Llantrisant, a gwaith grwp yn ardal Tonysguboriau - cofnodi ceir a thrafnidiaeth.

# 'DOLIGIADUR

Nos Sadwrn, Rhagfyr 8fed - Noson Mas i'r Teulu. Canolfan Addysg Bellach Martin Sant, Caerffili 5.30pm i 10pm.

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 15fed - Parti Nadolig Clwb y Bont i'r Plant.

Nos Lun, Rhagfyr 17fed - Noson i'r Dysgwyr, Clwb y Bont. Twmpath, Disgo ac artistiaid amrywiol. Agored i bawb.

Nos Fawrth, Rhagfyr 18fed - Dawns Ieuenctid yr Urdd yng Ngholeg Politechnig Trefforest.

Nos Fercher, Rhagfyr 19fed - Parti Nadolig y Poli yng Nghlwb y Bont, agored i bawb.

Dydd Iau, Rhagfyr 20fed - Cinio Nadolig y Dysgwyr yn y 'Navigation', Abercynon. 12-3 pm. Croeso i athrawon a chyfeillion.

Nos Wener, Rhagfyr 21ain - Parti Nadolig Clwb y Bont yng nghwmni Mabsant. Ceir estyniad.

Nos Calan - Dathlu yng Nghlwb y Bont gydag artistiaid amrywiol.

Nos Lun, Ionawr 14eg - Bara Caws yn cyflwyno 'Io, To a'r Twrci' yn Ysgol Gyfun Llanhari.

Nos Wener, Ionawr 25ain - Cinio gohebwyr, dosbarthwyr a chyfeillion Tafod Elái (gweler yr hysbyseb).

Croeso nôl i Ryland Hyatt - mae na un cwestiwn sy'n becso Mr Williams - pryd fydd e'n barod i'r tîm pêl droed?

CÔR MEIBION LLANTRISANT

Yn ystod mis Hydref aeth Côr Meibion Llantrisant i Anaheim - i'r de o Los Angeles ac fe gafwyd taith lwyddiannus iawn yn cynnwys chwe cyngerdd. Uchafbwynt y daith oedd y noson olaf yn Carpenteria. Pan nad oedd y côr yn canu roedden nhw allan yn torheulo wrth y pwll bendigedig, neu allan yn siopa yn chwilio am anrhegion i'r gwragedd! Hyd yn oed ar ddiwedd mis tacwedd roedd y gwres yn 80°F. Roedd pawb wedi mwynhau gweld yr "Universal Studios" yn arbennig y setiau a ddefnyddiwyd ar gyfer y ffilmiau "Jaws" a "Psycho". Dymunwn yn dda i'r Côr gyda'r Cyngherddau yn ystod mis Rhagfyr.

# GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: E. June Huws

FFAIR SBORION CAPEL BETHLEHEM
Cynhaliwyd ffair sborion lwyddiannus yn Neuadd Gymuned Ffynnon Taf ar 17fed o Dachwedd roedd elw'r bore i gyd i deulu mabwysiedig Capel Bethlehem yn Affrica.

P'NAWN COFFI'R FEITHRIN
Ceir prynhawn coffi bob dydd Mawrth yn festri Bethlehem lle gellir prynu cacen a phaned tra bod y plant yn chwarae'n dawel. Mae'r elw i gyd at y feithrinfa newydd a gynhelir ym Methlehem.

FFAIR NADOLIG YSGOL GWAELOD Y GARTH
Cynhaliwyd Ffair Nadolig gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol yn Neuadd y Pentref ar fore Sadwrn 1af Rhagfyr. Roedd stondinau diri yno a chawsom ymweliad cynnar gan Siôn Corn.

ADRAN YR URDD
Mae Adran yr Urdd wedi ei sefydlu yng Ngwaelod y Garth ac fe'i cynhelir yn neuadd yr ysgol bob prynhawn Iau o 3.45 tan 4.45pm. Cyfyngir yr adran i'r plant cynradd. Arweinir gan rai o athrawon yr ysgol ac mae rhieni yn eu cynorthwyo. Os hoffech gynnig help llaw, byddai croeso mawr! Cysylltwch a Mr E.B. Williams yn yr ysgol.

APÊL YR URDD
Roedd y disgo Calan Gaeaf yn llwyddiant mawr a chodwyd£80 o elw i apêl y pentref.

Bydd aelodau'r pwyllgor apêl a'u ffrindiau yn canu carolau o gwmpas y pentref ar nos Sul 23ain o Ragfyr. Gwyliwch y golofn hon am fanylion trefniadau ar gyfer y Noson Calan sydd i'w chynnal yn Neuadd y Gymuned Ffynnon Taf ym Mis Ionawr, fel menter ar y cyd gyda phwyllgor apêl Ffynnon Taf.


TAFARN Y NAVIGATION
ABERCYNON
**CINIO NADOLIG**
**Y DYSGWYR**
(a ffrindiau!)

12:00 - 3:00 o'r gloch
Dydd Iau, 20fed Rhagfyr 1990

Cinio Tri Cwrs: £8.50
Tocynnau: Colin Williams
Ffôn: 0443 407863.


# GWEITHDY THEATR IEUENCTID



Eryl Phillips gyda criw o'r Gweithdy Drama   Llun: Brian Tarr

Cyflwynwyd cymhorthdal arbennig i Weithdy Cymraeg Ieuenctid Theatr y Sherman. Hwn oedd y cymhorthdal mwyaf erioed a ddyfarnwyd o gronfa a glustnodwyd yn arbennig i barhau a datblygu theatr ieuenctid.

Rhoddwyd y prif wobr o £2000 i'r Gweithdy gan Gymdeithas Genedlaethol Theatrau Ieuenctid sy'n gweinyddu'r gronfa a elwir 'Mentrau Newydd'. Cystadlodd y Sherman yn llwyddiannus yn erbyn deugain o geisiadau cyffelyb oddi wrth amryw grwpiau ieuenctid.

Yr oedd arweinydd ieuenctid y Sherman, Adam Fresco, a luniodd y cais am arian ar ôl sefydlu y gweithdy fis Medi eleni yn dra balch o'r canlyniad. "Profodd arweinydd y Gweithdy (yr actor proffesiynol Eryl Huw Phillips) a'r union syniad am gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg yn eithriadol boblogaidd" medd Adam "Dechreua ail gwrs gan y Gweithdy ym mis Ionawr ac fe fydd yr ariannu haeddiannol hwn yn gymorth i'r gweithdy ddatblygu ac ehangu. Gobeithir y bydd yn sail i gynhyrchiad a hwyrach yn daith gan y grŵp yn y dyfodol.

Dewiswyd dwy o'r Gweithdy sef Lisa Snowball, Pentyrch, a Bethan Ellis Owen, Creigiau, i gymeryd rhan yng nghynhyrchiad Nadolig Theatr Sherman eleni. Mae'r Snow Spider ymlaen yn Theatr y Sherman o Dachwedd 27 i Ionawr 12.

TAF ELÁI
1·9·9·1

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU**

**Taf-Elái 27 Mai — 1 Mehefin 1991**

Roedd Dydd Gwener olaf mis Tachwedd yn ddiwrnod prysur iawn yn siopau y Fferyllydd C.A. Jones a J.D.Morris yn Llanharan, Tonysguboriau a Thonteg oherwydd ar y diwrnod hwnnw roedd holl elw y gwerthiant dros y cownter yn cael ei gyflwyno i Eisteddfod Taf Elái. Dymuna Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod ddiolch i Colin Jones am ei barodrwydd i gefnogi'r Ŵyl.

# MERCHED OGWR YN HELPU'R EISTEDDFOD

Ar nos Lun Tachwedd 26 bu côr Merched y Fro yn cynnal noson o Ganu Noddedig ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Taf Elái. Bu'r Côr, dan arweiniad Ann Williams ac Eira Paskin yn cyfeillio, yn canu am ddwy awr a hanner yng Nghlwb Brynmenyn. Ymysg y gerddoriaeth roedd emynau, carolau, cerdd dant, caneuon gwerin ac ambell i gân glasurol. Gyda seiniau swynol o Glwb Brynmenyn bydd yr Eisteddfod yn elwa o dros £200. Mae'n braf clywed fod pobol o tu allan i fro'r ŵyl yn cefnogi'r fenter.

# LLWYDDIANT YN YR WYL

Unwaith eto roedd carfan gref o'r ardal hon wedi teithio i'r Ŵyl Gerdd Dant a gynhaliwyd ym Mangor eleni. Llongyfarchiadau i Driawd y Garth sef Ann Williams, Menna Thomas ac Alwenna Roberts ar ennill eu cystadleuaeth ac i Ferched y Garth am berfformiad clodwiw mewn cystadleuaeth ardderchog i gloi y noson. Llongyfarchiadau hefyd i Buddug Selway a Nia Clwyd ar ennill y ddeuawd cerdd dant.

Ond i'n pobol ifanc mae'r clod pennaf yn mynd eleni. Daeth Parti Ysgol Heol y Celyn yn gyntaf yn y Gystadleuaeth Alawon Gwerin dan 12 oed, roedd Louise Withey a Gavin Quirke o'r ysgol yn fuddugol am ddawnsio gwerin dan 15 oed, a daeth Parti Dawns yr ysgol yn gyntaf yn y gystadleuaeth dan 15 oed gyda Ysgol Gyfun Rhydfelen yn ail.

Enillodd Catherine Thomas, Ysgol Gyfun Rhydfelen yr Unawd Telyn 13 - 19 oed a'r Ddeuawd Telyn Agored gyda Eleri Darkins o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Yn ôl y beirniad roedd Cyflwyniad Llafar buddugol Ysgol Gyfun Rhydfelen yn ysgubol ac ymysg uchafbwyntiau'r Ŵyl. Enillodd Daniel Evans y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth adrodd unigol agored. Daeth Elin Llywelyn yn drydydd yn yr Unawd Telyn dan 13 oed. Llongyfarchiadau i bawb a deithiod i Fangor i brofi fod Taf Elái yn bendant ar fap y byd Cerdd Dant.



Cyflwyniad Llafar
Ysgol Gyfun Rhydfelen



Daniel Evans yn yr Adrodd Unigol Agored



Louise Withey a Gavin Quirke
Ysgol Heol y Celyn

Lluniau: Y Cymro



Parti Alawon Gwerin
Ysgol Heol y Celyn



Catherine Thomas ac Eleri Darkins
yn ennill gwobr o £500 yr un

# WYTHNOS DAEAREG CYMRU

Ni fu erioed o'r blaen gyfnod na chenhedlaeth mor ymwybodol o'r amgylchedd. Rydym i gyd yn barod i ochru gyda bron unrhyw achos sy'n ceisio diogelu'r byd rhag moylyd y dafol fregus rhwng cynnal bywyd, a'r llwybr llithrig niweidiol na ellir ei droi yn ôl.

Yr hyn mae dyn ei hun yn ei wneud i'r hen fyd sy'n achosi'r gofid, ac mae'r gofid wedi cynyddu ers iddo allu monitro effeithiau diwydiannau, ac hefyd wrth i fwy o ryddid i sôn am y peryglon ledu.

Erbyn hyn mae'r ymwybyddiaeth o'r amgylchfyd yn destun o flaenoriaeth ymhlith gwleidyddion. Mae hefyd yn cael ei ddysgu yn yr ysgolion, dan os ca'i fentro'r pennawd dieflig, y Cwricwlwm Cenedlaethol (y C.C.). Efallai y gellir dadlau bod codi ymwybyddiaeth o'r amgylchfyd a'i broblemau yn y C.C. yn un o ychydig rinweddau'r C.C.

Mae cymaint o'r pethau sydd eu hangen arnom i gynnal safonau cyffredin a soffistigedig ein bywydau, yn dod yn uniongyrchol allan o wyneb neu gramen y Ddaear. Haen denau yw hi ond daw'r olew, glo, cemegau, pridd a phopeth arall allan ohoni. Rydym wedi ymelwa'n ddi-drugaredd ar drysorau'r gramen, gan adael tipyn o lanast ymhob man, a gwneud tipyn o ddifrod i'r amgylchfyd. Felly mae lle i groesawu codi'r ymwybyddiaeth yng nghyrsiau'r ysgolion.

Un o brif gyfryngau gwybodaeth am y gramen ac o'r trysorau sydd ynddi a'r peryglon o'u cam ddefnyddio, yw 'Gwyddor ddaear' o fewn Gwyddoniaeth yn y C.C. Testun newydd a dieithr yw hwn i fwyafrif o blant a nifer fawr o athrawon sy'n ei ddysgu. Nid yw hynny'n ofid i gyd beth bynnag, yn arbennig yn y de ddwyrain lle mae gennym fantais bod Caerdydd yn ganolbwynt i fwy o weithgarwch sy'n ceisio ateb gofynion gwybodaeth plant ac athrawon am Wyddor Daear (neu Daeareg), nag ymron unrhyw ardal arall o Brydain. Digwydd hyn drwy adran Daeareg y Brifysgol yng Nghaerdydd, a thrwy Adran Ddaeareg yr Amgueddfa Genedlaethol.

Er mwyn codi diddordeb ac ymwybyddiaeth plant (ac oedolion) Cymru felly, cynhelir 'Wythnos Daeareg Cymru' rhwng Gorffennaf 4ydd a'r 14eg 1991. Yn y cyfnod hyd at yr 'wythnos' honno, hysbysir holl ysgolion Cymru o fewn y dyddiau nesaf am nifer o gystadlaethau sydd â gwobrau hael iawn, wedi'i noddi gan ddiwydiant, ynghyd â chyfle i arddangos y canlyniadau mewn canolfannau rhanbarthol drwy Gymru, ac yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Mae'r cystadlaethau yn drawsgwricwlaidd eu natur, ac felly'n apelgar a chyraeddadwy at bawb.

Amlinellaf yn fras deitlau a gwobrau'r cystadlaethau isod, ond yn fwy na dim ga'i bwysleisio pwysigrwydd cael plant i gystadlu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwyniad dramatig yw un o'r cystadlaethau, ac fe fydd angen llawer mwy o reddf ddiwylliannol sydd gan y Cymry i'w gynnig yn hon, nag unrhyw wybodaeth Ddaearegol.

Cysylltwch fel athrawon, ysgolion, rhieni a phlant, yn unigol neu dan enw eich grŵp neu ysgol, yn uniongyrchol â rhif ffôn yr Amgueddfa, a roddir isod, neu gyda rhif ffôn y Brifysgol.

## Y CYSTADLAETHAU

1. Cystadleuaeth Cynllunio Llwybr Daearegol.
Grwpiau oedran:
5 - 11 oed ar 31/8/91
12 - 18 oed ar 31/8/91

Gwobrau - Pob Dosbarth
Y wobr 1af: £750 o offer clyweled i'r ysgol. Yr ail wobr: £500 o offer clyweled i'r ysgol. A gwobrau eraill.

2. Cystadleuaeth Ffotograffig.
Pennawd: Mae Daeareg O'ch Cwmpas.
Grwpiau Oedran:
11 - 14 oed ar 31/8/91
15 - 16 oed ar 31/8/91
17 - 18 oed ar 31/8/91
Gwobrau
Y wobr 1af - Camera o ansawdd uchel.
Yr ail wobr - Tocynnau gwario ar offer ffotograffig.
Y drydedd wobr - Tocynnau gwario ar offer ffotograffig.

3. Cystadleuaeth Barddoniaeth / Rhyddiaeth
Pennawd: Mae Gan Bob Craig ei Stori
Grwpiau Oedran
5 - 7 oed ar 31/8/91. Cerdd hyd at 15 o linellau neu ryddiaith hyd at 300 o eiriau.
8 - 14 oed ar 31/8/91. Cerdd hyd at 30 o linellau neu ryddiaith hyd at 600 o eiriau.
Gwobrau (yn docynnau llyfrau neu arian parod).
Y wobr gyntaf £40 -£75
Yr ail wobr £20 - £40
Y trydedd wobr £10 - £20.

4. Cystadleuaeth Traethawd
Pennawd: Ardrawiad Daeareg Ar Fyd Yfory.
Grwp Oedran
15 - 18 oed ar 31/8/91
Gwobrau: Cyntaf £75
Ail £50, Trydydd £25.

5. Cystadleuaeth Celf.
Pennawd: Mae Daeareg Yn Brydferth
Grwpiau Oedran
5 - 7 oed, 8 - 11 oed, 12 - 14 oed, 15 - 16 oed, 17 - 18 oed ar 31/8/91.
Gwobrau ym Mhob Grwp Oedran
Cyntaf £40 - £75
Ail £20 - £40.
Trydydd £10 - £20

6. Cystadleuaeth - Cwis Daearegol
Grwp Oedran
14 - 17 oed ar 31/8/91
Gwobrau
Gwobr gyntaf a'r ail wobr yw gwerth £1500 o hyfforddiant maes a llety mewn canolfan y Cyngor Astudiaeth Maes, ynghyd a gwerth £500 o adnoddau dysgu daearegol i'r ysgolion buddugol.

7. Cyflwyniad Dramatig - cysylltwch am wybodaeth pellach.

Am wybodaeth pellach ffoniwch:-
Geraint Price 0222 397951 est 214
neu Zoe Moore 0222 874000.

# PONTYPRIDD

Gohebydd lleol: Delyth Jones

YSGOL PONT SIÔN NORTON

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig adran y babanod yng Nghapel Sardis fore Sul Rhagfyr 9fed am 10.30 a'r adran Iau am 6 o'r gloch yr hwyr.

Ar y 12fed o Ragfyr cynhelir Noson Caws a Gwin yn neuadd yr ysgol yng nghwmni'r 'Triban'.

Fe fydd 'Rosfa' y consuriwr yn ymweld â'r ysgol am y chweched flwyddyn yn olynol i ddiddanu'r plant ar y 14eg o Ragfyr.

Ar yr 17eg o'r mis fe fydd y Gymdeithas Rieni yn canu carolau yn ardaloedd y Trallwn a'r Comin.

CAPEL SARDIS

Fe gynhleir Gwasanaeth Nadolig y plant eleni ar fore Sul yr 22ain o Ragfyr.

CROESO I'R ARDAL

Croeso i Justin a Siân Mehefin Ogleby sydd wedi ymgartrefu yn 17 Lan Close, Graigwen. Priodwyd y ddau yn y Rhondda ar yr 22ain o Fedi eleni. Mae Siân yn gweithio yn Adran Addysg y BBC ac mae Justin yn gweithio yng Nghasnewydd.

YSGOL HEOL Y CELYN

Cynrychiolodd Côr Ysgol Heol y Celyn Gymru gyfan wrth i gantorion ar hyd a lled Prydain ymuno yn apêl flynyddol Plant mewn Angen.

YSGOL EVAN JA MES

Llongyfarchiadau i Buddug Selway, athrawes yn yr ysgol, a ddaeth yn gyntaf ar y ddeuawd dros 21 oed gyda Nia Clwyd yn yr Ŵyl Gerdd Dant.

Fe gynhaliwyd y Ffair Nadolig yn yr ysgol ar ddydd Sadwrn Rhagfyr 1af ac fe fu hon yn llwyddiant fel arfer. Bwriad y rhieni a'r athrawon ydy codi digon o arian i brynu cyfrifiadur ar gyfer pob dosbarth yn yr ysgol.

Fe fydd iard yr ysgol yn cael ei defnyddio fel Maes Parcio i'r cyhoedd am y tri Dydd Sadwrn cyn y Nadolig ar gyfer siopa yn y dre.

Fe gynhelir Cyngherddau Nadolig yr ysgol eleni ar y 13eg a'r 14ėg o Ragfyr yn neuadd yr ysgol.

PLANT MEWN ANGEN

Bu plant Ysgol Evan James ac Ysgol Pont Siôn Norton yn brysur ar y 23ain o Dachwedd yn casglu arian i'r apêl. Llwyddodd Ysgol Evan James i godi dros £200 a llwyddodd Ysgol Pont Siôn Norton i godi £421 gyda chymorth rhai o'r mamau sef Mrs Gail White o Gilfynydd a gyfrannodd £71.50 i'r gronfa, a Mrs Sandra Emerson a Mrs Leslie Harries a gasglodd £157 yn nhref Pontypridd ar fore Gwener, Tachwedd 23ain a'i roi i gronfa'r ysgol ar gyfer Plant Mewn Angen.

## TÂN

Dydd Iau, Hydref 11fed digwyddodd tân yn 45 Parc Prospect, Pontypridd. Gadawodd Mam y peiriant sychu arno am hanner awr amser cinio. Aeth i nôl fi o'r ysgol. Pan aethon ni nôl i'r tŷ sylwon fod tân yn dod o'r tŷ. Roedd fy nghathod yn y gegin. Enw fy nghathod yw Pwtsi a Grwndi. Daeth yr injan dân i'r stryd. Rhoddodd yr injan dân ocsigen i fy nghathod achos roedden nhw bron â marw. Aethon ni â'r cathod i'r milfeddyg.

Pan ddaethon ni yn ôl o'r milfeddyg daeth y teledu i'n ffilmio ac roedden yn y papur a'r teledu. Daeth llawer o bobol i helpu i gario dodrefn, a golchi dillad. Roedd y tŷ fel ogof du. Hoffai Mam a Dad ddiolch i bawb a fu yn ein helpu.

Siwan Mererid Ffrancis.


PARC TREFTADAETH
Rhondda

*Dewch a'r teulu i brofi dipyn o hanes unigryw*
*Cymoedd De Cymru*
Arddangosfa Fywiog o Hanes y Rhondda
*Oriel, Celfi, Siop Goffi, Siop Lyfrau a Chrefftau*
Canolfan Ymwelwyr Ar Agor BobDydd
10.00 am - 5.00 pm
Mynediad £1.00, Gostyngiadau 70c.
*Parc Treftadaeth y Rhondda*
*Lewis Merthyr, Ffordd Coed Cae*
*Trehafod (0443 682036)*

**AR GYFER LLYFRAU O GYMRU**

Heol Tŷ'r Brodyr
Caerdydd, CF1 4AA.
Ger y Theatr Newydd

ORIEL

**Ar agor chwe dydd yr wythnos 9.00-5.30**
**Agor yn hwyr ar gyfer siopa Nadolig**
**tan 8.00pm**

**Dydd Iau Tachwedd 15**
**Dydd Iau Tachwedd 22**
**Dydd Gwener Tachwedd 30**
**Dydd Iau Rhagfyr 6**
**Dydd Iau Rhagfyr 13**
**Dydd Iau Rhagfyr 20**

Ar gau 25-27 Rhagfyr, 1990



# CARDIAU NADOLIG ARBENNIG







Angen rhagor o gardiau ar gyfer yr ŵyl? Mae Tom Jones, Pontypridd wedi cynhyrchu Cardiau Nadolig yn seiliedig ar olygfeydd yn y fro. Ar gael drwy ffonio 0443 403674. Pecyn o 8 am £1.75

## DIWEDD CYFNOD

cerddoriaeth a dawnsio gwerin

cadlan



Ers 1981 mae'r Grŵp Cadlan wedi bod yn cyfeillio ar gyfer Twmpathau Dawns led-led y wlad. Ond oherwydd fod Ffidlwr y grŵp, Rob Timothy, ar fin symud i Ogledd Iwerddon mae'r grŵp wedi penderfynu gorffen.

Cynhaliwyd noson gyntaf y grŵp yn Aberdâr gydag elw'r noson yn mynd tuag at Gymdeithas Rieni Ysgol Gyfun Rhydfelen ac ers hynny mae'r grŵp wedi cyfeillio i fudiadau rhieni, nosweithiau ysgolion meithrin ac mewn cyngherddau diri. Mae'n debyg fod mwy o'r Twmpathau hynny wedi eu cynnal yn Neuadd y Pentref Pentyrch nac unrhyw fan arall ond ar Nos Sadwrn, 17 Tachwedd cynhaliwyd Twmpath olaf Cadlan yno. Roedd hi'n noson bywiog a hwyliog o dan ofal y galwr, Peter Griffiths, ac fel ymhob un o'u Twmpathau roedd eu cyfeillant byw yn codi ysbryd y noson.



Tony Gibblett, Kevin Brennan, Rob Timothy, Peter Griffiths y galwr ac Allan Williams.